

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol yCyngor, Nos Fawrth y 12fed o Ionawr 2016.**

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts (Llanllyfni); Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Justin Davies, Mark Balaam (Penygroes); Eurig Wyn Evans (Nebo); Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams (Talysarn); Craig ab Iago (Cynghorydd Sir); Non Edwards, Julie Holland, Brian Kearney (Heddlu Gogledd Cymur) / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones (Nantlle), Dyfed Edwards (Penygroes/Cynghorydd Sir).
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
- 3. Gwadd:** Heddlu - Julie Holland a Non Edwards. Yn ogystal, death Brian Kearney - Arolygydd Heddlu Gogledd Gwynedd i'r cyfarfod. Y neges a roddwyd i'w drosglwyddo i'r cyhoedd oedd i adrodd pob digwyddiad amheus i'r heddlu. Roedd y Cyngor yn llongyfarch yr Heddlu am y gwaith meant yn ei wneud. Cafwyd gwybodaeth am 'closure orders,' sef yr hawl sydd gan yr Heddlu wrth gydweithio gyda asiantaethau tai ac ati i ddigartrefu tenant sydd yn torri'r gyfraith. Craig yn adrodd fod angen i'r gymuned adrodd digwyddiadau i'r heddlu. Bydd yn trefnu cyfarfod cymunedol yn y pentref gyda gwahoddiad i asiantaethau megis y Gwasanaeth Tan, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, yr Heddlu. Trafodwyd camerau CCTV. Trafodwyd lloches bws Penygroes, a'r diffyg o olau stryd a diffyg o fin yno. Trafodwyd y parcio ger y Co-op ym Mhenygroes. **Penderfynwyd** ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gefnogi'r ceisiadau am olau, ac hefyd cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am y parcio.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Rhagfyr.** Harry Wyn Owen yn datgan cywirdeb, a Gwyndaf Roberts yn eilio.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Cyfarfod 29/1 - y Fic. **Penderfyiwyd** Cynnal y cyfarfod am 6.30 – cysylltu efo Alun Ffred a Gwynedd Watkin I gadarnhau'r amser; Ymatebion – Pwyso 'mlaen efo cael bin wrth y lloches bws yn Nasareth; holi eto efo'r ymholiadau cynllunio; dim wedi digwydd efo adeilad y Cwari, ond Cyngor Gwynedd wedi hysbysu'r Cynghorydd Sir fod yr adeilad ei hun yn saff; Cyfarfod yn dilyn y cyfarfod yn Dinas Dinlle wedi ei drefnu at y 28/1 (Craig); Cysylltu efo'r contractiwr goleuadau Nadolig I'w atgoffa I'w tynnu I lawr mor fuan a phosib; Ysgol Dyffryn Nantlle wedi archwilio'r ffens yn Llwyn y Fuches ac wedi adrodd fod y ffens yn saff – y cyngor dal I bryderu am ddiogelwch. Y Clerc I gysylltu efo swyddogion Cyngor Gwynedd.
- 6. Sedd wag Talysarn.** Rhoddwyd enw Peter Thomas ymlaen – Harry yn cynnig ei dderbyn I'r Cyngor a Hefina yn eilio. Pawb yn cytuno. **Penderfyniad** - Peter Thomas yn cymryd sedd wag Talysarn. Gofynwyd I Martin yrru manylion Peter ymlaen I'r Clerc.
- 7. Praesept 2016-17.** Trafodwyd cyllid y flwyddyn nesaf, ond roedd peth ansicrwydd am wariant mynwentydd. Yn ogystal, roedd gwariant mynwentydd am y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn sylweddol is na blynnydoedd blaenorol oherwydd strwythur newydd torri mynwentydd a llwybrau. **Penderfynwyd** cadw'r praesept yr un fath am 2016-2017.
- 8. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor.** Dim is-bwyllgor.
- 9. Cynllunio** Dim cais cynllunio.
- 10. Gohebiaeth.**

#### **Cyngor Gwynedd**

\*Praesept (uchod)

\*Dileu safle parcio anabl – Llanllyfni. Cytuno.

#### **Arall**

\*Gwahoddiad i enwebu ar gyfer 'Rhestr Anrhydedd Blwyddyn Newydd 2017' – er gwybodaeth.

\*'Mwynageiriau' - cyfarfod Caernarfon 13/1/16 (9.30). Craig yn mynychu – gofynwyd iddo adrodd yn ol ar ol mynychu.

\*Gefeillio - arwydd (CapI) Cyngor Gwynedd wedi cytuno I ostwng y pris drwy ddileu y ffi gweinyddol –

**Penderfyniad** Cyngor Cymuned yn cytuno I gyfrannu uchafswm o £600.

\*Digwyddiad Ymgysylltu - Drafft Bil Llywodraeth Leol - Llandudno 4/2/16. Neb yn mynychu.

\*Is-Gaeirydd GIG Cymru. Er gwybodaeth.

\*Llythyr yn cyflwyno swyddog Diogelwch Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru. Gwahodd Wendy Kay i gyfarfod y Cyngor Cymuned.

\*Adolygiad Diogelwch Cefnffyrdd. Er gwybodaeth.

\*Cyhoeddi Asesiad o Sensitifrwydd a Capacity y Dirwead - Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwybodaeth.

11. **Gwefan.** Adrodd yn ol am ymweliad yr Heddlu.
12. **Dol Bebi.** Aros am ymateb parthed cofrestru'r tir. Angen holi ar sail cyfreithiol pwy sydd yn berchnogion ar y tir.
13. **Goleuadau Beics.** Yr Heddlu wedi ariannu tuag at y goleuadau, £750 i'w dalu i'r cyflenwr gan y Cyngor Cymuned.
14. **Materion Pentrefi.** Talysarn - coeden wedi disgyn rhwng y cae pel droed a'r parc sglefrio ar draws y llwybr; Angen glanhau tu ol i'r byngalos yn Gloddfa Glai; Ysbwriel angen ei godi ar hyd Hen Lon a'r ffordd fawr rhwng Talysarn a Penygroes - plastigion ac yn y blaen; Cwyn am y gwasanaeth casglu ailgylchu, bod biniau glas yn cael eu gadael heb eu gwagio (Ffordd yr Orsaf). Hefyd, fod dim caeadau gan nifer o drigolion i'w rhoi ar y biniau glas, a fod gwynt yn codi'r ysbwriel o'r bocsus; Arwydd llwybr cyhoeddus Ffordd Nantlle wedi ei baentio drosodd - cysylltu efo'r swyddog llwybrau. Llallyfni efo'r un gwyn am y gwasanaeth casglu biniau glas; **penderfynwyd** rhoi canitad y Cyngor i OP Huws i ysgrifennu ar ran y Cyngor Cymuned at y Brifysgol ynglyn a chronfa cynnal a chadw cofeb R Williams Parry, a bod y cyflwr yn dirywio. Llanllyfni Oergell wedi ei gadael rhwng Berth a Cefn Graianog; Lon gerdded o Llanllyfni i Penygroes yn fwdlyd a gwlyb, a paled bren wedi ei rhoi yno. Cyflwr y llwybr yn beryglus, a phobl a phlant yn ei osgoi a cherdded ar y lon fawr. **Penderfynwyd** ysgrifennu at Gyngor Gwynedd; Dwr yn tasgu o gae gyferbyn a Ger y LLan drwy waliau Tu Draw, ac yn creu perygl ar y lon. Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd; Gwliau Llanllyfi i gyd angen eu glanhau. Penygroes Ysbwriel bocsus glas ar hyd y lle wedi i'r lori fod o gwmpas yn casglu ar ddydd Sadwrn - Cyngor Gwynedd ddim yn glanhau stryd wedyn tan ddydd Gwener, a'r ysbwriel o gwmpas y lle am bron i wythnos gron; Lamp ger 4 Trem yr Wyddfa angen ei drwsio. **Penderfynwyd** gwneud cais unwaith eto i newid diwrnod y glanhawr stryd ar gyfer y pentref. Byddai hyn yn fwy effeithlon. Nebo Gwliau/draeniadu angen eu glanhau - dwr yn llifo heibio. Dwr yn hel yn tir cae Tyrpeg.
15. **Llwybrau a Mynwentydd.** Cynllun MacPelah - trefnu cyfarfod is-bwyllgor cyn dyddiad cyfarfod llawn y Cyngor. Cysylltu efo Iwan i weld ar ba ddyddiadau mae ar gael ; Blodau ar fedd yn Gorphwysfa wedi eu dwry - y Cyngor yn datgan pryder am hyn ac yn gresynu fod y ffasiwn beth wedi digwydd.
16. **Materion yn ymweud a'r heddlu.**
17. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngryd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Mynwentydd a Llwybrau £10248 - derbyn.

\***Taenlen i'w chymeradwyo.** Derbyn.

\***Ceisiadau am Arian** Ambiwlans Awyr Cymru; Dawns i Bawb; Croes Goch Brydeinig; Bobath. Trafod Chwefror.